

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Deddfwriaeth Gynradd Primary Legislation

C11 Alun Ffred Jones: Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion y Deyrnas Gyfunol parthed deddfwriaeth gynradd sy'n effeithio ar Gymru? OAQ1076(FM)

Q11 Alun Ffred Jones: What recent discussions has the First Minister had with UK Government Ministers regarding primary legislation that impacts upon Wales? OAQ1076(FM)

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Yr wyf yn cael trafodaethau rheolaidd â'r Ysgrifennydd Gwladol am amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar Gymru, gan gynnwys deddfwriaeth sylfaenol.

The First Minister (Rhodri Morgan): I have regular discussions with the Secretary of State on a range of issues impacting on Wales, including primary legislation.

Dirywiad y Diwydiannau Gweithgynhyrchu The Decline of the Manufacturing Industries

Q12 Owen John Thomas: What steps is the Welsh Assembly Government taking to halt the decline of the manufacturing industries in Wales? OAQ1047(FM)

C12 Owen John Thomas: Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i roi terfyn ar ddirywiad y diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru? OAQ1047(FM)

The First Minister: The Assembly Government provides an extensive range of support to assist Welsh manufacturers who face increasing global pressures to be ever more innovative and outward looking to maintain their competitive positions.

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn darparu cefnogaeth helaeth i gynorthwyo gweithgynhyrchwyr sy'n wynebu pwysau byd-eang cynyddol i fod yn fwy arloesol ac eang eu gorwelion o hyd er mwyn cynnal eu sefyllfaoedd cystadleuol.

Denu Busnesau i Gaerdydd Attracting Businesses to Cardiff

Q13 Lorraine Barrett: What action is the Welsh Assembly Government taking to attract businesses to Cardiff? OAQ1046(FM)

C13 Lorraine Barrett: Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i ddenu busnesau i Gaerdydd? OAQ1046(FM)

The First Minister: The Assembly Government and its Team Wales partners are

Y Prif Weinidog: Mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid Tîm Cymru yn

implementing a variety of strategies to help to bring employment opportunities to the whole of Wales, including Cardiff.

gweithredu amrywiaeth o strategaethau i helpu i ddod â chyfleoedd cyflogaeth i Gymru gyfan, gan gynnwys Caerdydd.

Adeilad Newydd y Cynulliad The New Assembly Building

C14 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adeilad newydd y Cynulliad? OAQ1078(FM)

Q14 David Lloyd: Will the First Minister make a statement on the new Assembly building? OAQ1078(FM)

Y Prif Weinidog: Bydd llawer ohonoch sydd wedi ymweld â'r adeilad newydd yn ddiweddar wedi gweld bod y gwaith ar yr adeilad bron wedi dod i ben, gyda'r mwyafrif o fannau wedi'u trosglwyddo oddi wrth Taylor Woodrow yn sgîl arolygiad terfynol. Mae rhywfaint o waith ar y pontydd cyswllt, y lifftiau a chefn yr adeilad heb gael ei orffen eto ac, yn ôl yr amserlen, bydd y gwaith hwnnw wedi cael ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr.

The First Minister: Many of you who have recently visited the new building will have seen that work on the building is almost complete with the majority of areas handed over from Taylor Woodrow following final inspection. Some work to the link bridges, lifts and rear of the building are yet to be finished and are scheduled to be complete by the end of December.

Polisiâu Cyfiawnder Cymdeithasol (Alun a Glannau Dyfrdwy) Social Justice Policies (Alyn and Deeside)

Q15 Carl Sargeant: Will the First Minister make a statement on social justice policies in Alyn and Deeside? OAQ1048(FM)

C15 Carl Sargeant: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiâu cyfiawnder cymdeithasol yn Alun a Glannau Dyfrdwy? OAQ1048(FM)

The First Minister: Promoting social justice lies at the heart of the Assembly's agenda. Higher Shotton Estate and Holywell Neighbourhoods in Alyn and Deeside have received Communities First funding totalling £478,892.76 and £804,138.78 respectively. In 2005-06, the Flintshire Community Safety Partnership acquired £200,000 from our communities fund and £366,215.50 for tackling substance misuse.

Y Prif Weinidog: Mae hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol wrth graidd agenda'r Cynulliad. Mae cymdogaethau Ystâd Shotton Uchaf a Threffynnon yn Alun a Glannau Dyfrdwy wedi derbyn cyfanswm o £478,892.76 a £804,138.78 bob un o arian Cymunedau yn Gyntaf. Yn 2005-06, cafodd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint £200,000 o'n cronfa gymunedau a £366,215.50 ar gyfer mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau.